**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 17 MEDI 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, C.Furlow-Harris, R.Headon, S.Blewett, C.Davies, J.Woodman-Ralph a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Jones | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol, gan ei bod yn gynrychiolydd o'r cyngor ar Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot ac yn Ymddiriedolwr ar gyfer CGGCNPT. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Jones | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol, gan ei bod yn gynrychiolydd o'r cyngor ar Gymdeithas Cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig NPT. Roedd o'r farn bod ei buddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |
| Y Cynghorydd P D Richards | Parthed Cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol, gan mai ef sy'n cynrychioli'r cyngor ar Fwrdd Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewinol. Roedd o'r farn bod ei fuddiant yn niweidiol a gadawodd y cyfarfod ar ddechrau'r eitem. |

## 3. **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2024**

Nododd yr Aelodau fod angen cyhoeddi rhan gyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 cyn mis Hydref 2020.

**Penderfyniadau:**

1. Caiff Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, fel y'i hatodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ei gyflwyno i'r cyngor i'w gymeradwyo.

2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldebau i wneud unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw newidiadau o'r fath yn newid cynnwys y ddogfen a ystyrir gan y cyngor yn sylweddol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

4. **CYNRYCHIOLAETH Y CYNGOR AR GYRFF ALLANOL**

**Penderfyniadau:**

1. Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn enwebu cynrychiolwyr i fyrddau sefydliadau a ariannwyd gan y cyngor mwyach, a lle'r oedd cyfranogiad ym myrddau'r sefydliadau hynny'n wirfoddol.

2. Hysbysir Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Gofal a Thrwsio Castell-nedd Port Talbot, Ardal Gwella Busnes Castell-nedd, Ardal Gwella Busnes Port Talbot a Chymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Castell-nedd Port Talbot fod penodedigion presennol y cyngor yn dymuno ymddiswyddo o'r sefydliadau hyn ac o ddyddiad ymddiswyddiad o'r fath, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot bellach yn bwriadu penodi cynrychiolwyr sy'n aelodau etholedig i'r sefydliadau hyn.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu addas ar waith mewn perthynas â pherthynas y cyngor â'r sefydliadau a ariennir ganddo ac atal aelodau a benodir rhag cael eu rhoi mewn sefyllfa o wrthdaro rhwng eu dyletswyddau fel aelodau o'r sefydliadau hyn ac aelodau etholedig o'r cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

5. **NEWIDIADAU I GYNRYCHIOLAETH TAI TARIAN**

Cytunodd yr Aelodau i newid 'penodi dau aelod' i 'benodi aelodau 'neilltuedig', fel a ddangosir mewn print trwm isod.

**Penderfyniad:**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn hysbysu Tai Tarian Limited bod yr aelodau **neilltuedig** a benodwyd yn dymuno ymddiswyddo o'r bwrdd gwirfoddol, ac o ddyddiad ymddiswyddiad o'r fath, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot bellach yn

bwriadu penodi cynrychiolwyr sy'n aelodau etholedig i fwrdd gwirfoddol Tai Tarian Limited.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod trefniadau llywodraethu addas ar waith mewn perthynas â pherthynas y Cyngor â Tai Tarian Limited ac atal aelodau a benodir rhag cael eu rhoi mewn sefyllfa o wrthdaro rhwng eu dyletswyddau fel aelodau o'r bwrdd gwirfoddol ac aelodau etholedig o'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**